

CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorydd M. Lewis.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cyngorwyr D. De-Ath a M. Michael.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cyngorwyr R. Sivagnanam (Cadeirydd) a P. Drake.

(a) Cyhoeddiad –

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, atgoffodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol y byddai'r cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, yn ogystal â'i recordio, drwy'r rhyngwyd a'r recordiad yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol.

(b) Ymddiheuriad am Absenoldeb –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd R. Goode (Is-Gadeirydd) (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr).

(c) Cofnodion –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr, 2022 a'r Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2023 fel cofnod cywir.

(d) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(e) Adroddiad Trosolwg a Diweddarau Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Cydbwyllgor am waith y gwasanaeth a chynnydd tuag at gwblhau'r camau gweithredu yng Nghynlluniau Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR). Dechreuodd y Pennaeth Gwasanaeth drwy gyfeirio at baragraff 2.1 yr adroddiad yn ymwneud â lefel absenoldeb salwch ar gyfer y

Gwasanaeth ar ddiwedd Chwarter 3, gan ddweud bod nifer o aelodau staff ar salwch hirdymor a oedd yn ymwneud ag elfen sylweddol o'r ffigur cyffredinol o 8.47 diwrnod. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dueddiadau amlwg yn y ffigurau absenoldeb byrdymor ac eithrio effaith heintiau Covid 19 a oedd bellach yn cael eu cyfrif fel rhan o gyfanswm absenoldeb salwch gan fod newid wedi bod yn y mecanwaith adrodd ar gyfer heintiau sy'n gysylltiedig â Covid. Amlygodd yr adroddiad hefyd, fel rhan o'r gofyniad i gyflawni arbediad 3% yn y gyllideb, fod tair swydd wag yn cael eu dileu, un o bob un o dri sector y GRhR, a fyddai'n effeithio ar adnoddau wrth symud ymlaen. Tynnodd y Pennaeth Gwasanaeth sylw'r Pwyllgor hefyd at baragraff 2.3 yr adroddiad, a oedd yn cyfeirio at wasanaeth 40 mlynedd di-dor dau gydweithiwr y GRhR. Nodwyd y byddai erthygl yn cael ei lanlwytho i StaffNet ynglŷn â'r cyflawniad trawiadol hwn ac awgrymwyd y dylai pob Aelod o'r Pwyllgor gael copi o'r erthygl drwy e-bost, pan fydd ar gael, er gwybodaeth.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Lewis ynglŷn â sut roedd lefelau salwch cyn Covid yn cymharu â'r lefelau presennol, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod gostyngiad wedi bod yn absenoldeb salwch yn ystod Covid ond ar ôl Covid roedd hyn wedi cynyddu ychydig. Cyflwynodd yr adroddiad, a oedd yn darparu data ar lefelau gweithgarwch hefyd, sicrwydd i Aelodau lleol pob Cyngor fod gweithgarwch y GRhR yn parhau i fynd i'r afael â materion ar draws y rhanbarth.

O ran yr argyfwng costau byw parhaus ac archwiliadau o safleoedd, gofynnodd y Cynghorydd Sivagnanam a fu cynnydd yn nifer y safleoedd sydd o bosibl yn torri corneli o ganlyniad. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod rhai materion wedi bod mewn rhai safleoedd, er enghraifft, gyda rhai heb gyflenwad dŵr poeth. Fodd bynnag, o ran cydymffurfiaeth, nodwyd bod Gwasanaethau Rheoleiddio ar draws y tri Chyngor hefyd ar hyn o bryd yn dilyn Cynllun Adfer Awdurdodau Lleol Covid 19 yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a ddangosir yn Ffigur 1 yn yr adroddiad, gyda'r Cynllun Adfer yn canolbwyntio hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2022 ar safleoedd â sgôr D nad ydynt yn cydymffurfio'n gyffredinol.

Roedd y gwaith gorfodi a oedd ei angen o ganlyniad i gydymffurfiaeth wael wedi cymryd llawer o amser ac wedi cael effaith andwyol ar gynnydd yn erbyn y cynllun arolygu. Gofynnodd y Cynghorydd De'Ath a oedd gan y Gwasanaeth yr offer digonol i ddelio â pherchnogion bwytai nad oeddent yn cadw'n barhaus at reolau er budd diogelu'r cyhoedd. Er enghraifft, cyfeiriodd Rheolwr Gweithredol y gwasanaeth at achos penodol a gymerwyd drwy broses lys ac er ei fod wedi bod yn achos llys hir lle'r oedd safonau ar y safle wedi bod yn wael iawn, roedd yr Awdurdod wedi ennill yr achos. Yna cyfeiriodd y swyddog at y prosesau a oedd ar gael i'r gwasanaeth a dywedodd y gellid gwneud cais am orchymyn gwahardd i atal perchennog rhag rhedeg safle bwyd er ei fod yn cael ei gydnabod bod hyn yn cael ei wneud pan fo eiddo mewn cyflwr gwael iawn. Gofynnodd y Cynghorydd De'Ath a fyddai mwy o bwerau yn ddefnyddiol, gyda'r swyddog yn dweud bod yr offer yn eu lle ond bod y broses yn hir.

Nododd yr adroddiad hefyd waith monitro perfformiad ar gyfer pob gwasanaeth, gyda'r Rheolwyr Gweithredol yn bresennol i gynghori ar ac ateb ymholiadau ar eu priod wasanaethau.

Wrth ystyried yr adroddiad ymhellach, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad hefyd mewn perthynas â Rhan IV o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 lle byddai cyfundrefn trwyddedu gorfodol yn cael ei gweithredu ar gyfer triniaethau penodedig sef aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio (gan gynnwys colur lled-barhaol). Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai'r gyfundrefn trwyddedu gorfodol hon yn disodli'r broses gofrestru gyfredol dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- "Ymarferwyr i fod â thrwydded i gynnal triniaethau arbennig, a byddai'n drosedd i gyflawni triniaethau arbennig heb drwydded;
- Rhaid i gerbydau neu safleoedd busnes gael eu cymeradwyo, a byddai'n drosedd i ymarferydd gyflawni unrhyw driniaethau o safleoedd neu gerbydau heb eu cymeradwyo;
- Byddai trwydded lawn yn para am 3 blynedd, a byddai trwydded dros dro yn para am 7 diwrnod (roedd hyn er mwyn darparu ar gyfer cyflawni triniaethau arbennig mewn digwyddiadau a chynadleddau);
- Byddai'n ofynnol arddangos y drwydded ar y safle lle bo'r driniaeth yn cael ei chyflawni;
- Byddai amodau'r drwydded yn ymwneud â chymhwysedd ymarferwyr, y safle lle mae'r ymarferwyr yn gweithio, yr offer a'r arferion a ddefnyddir, cyngor a roddir cyn ac ar ôl y driniaeth arbennig a'r cofnodion a gedwir gan ymarferwyr;
- Awdurdodau Lleol fyddai'n gyfrifol am orfodi'r gofynion trwyddedu ac am gadw cofrestr gyhoeddus gyfredol;
- Byddai mwy o bwerau i orfodi'r ddeddfwriaeth hon na'r rhai sydd ar waith ar hyn o bryd, yn ogystal â'r gallu i ddirymu trwydded ac atal arferion anniogel ar unwaith;
- Byddai'n rhaid i'r rheiny sy'n cyflawni Triniaethau Arbennig fod wedi ennill y Cymhwyster Lefel 2 mewn Rheoli ac Atal Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig."

Gan nodi y byddai ymarferwyr yn bersonol drwyddedig i gyflawni triniaethau dan y fframwaith newydd ac y byddai'r drwydded ar waith am dair blynedd, cydnabuwyd y byddai'n ddarn helaeth o waith gyda dyddiad mynd yn fyw o 1 Ebrill 2024.

Dywedodd y Cynghorydd Lewis mai'r pryder ar gyfer cynghorau oedd nad oedd cyllid newydd ar gael ac y byddai'n anodd cynllunio dan yr amgylchiadau hyn.

Nodwyd hefyd y byddai cymhwyster Rheoli ac Atal Heintiau ar gyfer Triniaethau Arbennig ar gael i ddysgwyr gael y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o ran pwysigrwydd rheoli ac atal heintiau gyda'r GRhR yn dod yn un o bum canolfan hyfforddi achrededig yng Nghymru i ddarparu cymhwyster o'r fath.

Diolchwyd i'r swyddog am gyflwyniad addysgiadol iawn a fyddai'n cael ei lanlwytho i'r wefan gyda chafeat i'r rheiny sy'n edrych ar y cyflwyniad gael gwybod y gallai rhai agweddau arno beri gofid.

Wrth gyfeirio at yr adran o'r adroddiad yn ymwneud â diogelwch adeiladau, roedd Llywodraeth Cymru wedi ailadrodd ei hymrwymiad i fynd i'r afael â diogelwch adeiladau yng Nghymru, a'i gweledigaeth yw bwrw ymlaen â Rhaglen Diogelwch

Adeiladu Cymru ochr yn ochr â rhaglen ddiwygio sylweddol i sefydlu cyfundrefn diogelwch adeiladau addas at y diben. Roedd y Cyngor hefyd yn gweithio gyda Gwasanaeth Tân De Cymru yn hyn o beth. Rhoddwyd diweddariad hefyd i'r Pwyllgor ar fonitro ac adrodd ansawdd aer ar draws tair ardal y Cyngor. Dilynwyd hyn gan gipolwg ar ailfrandio Uned Benthycy Arian Anghyfreithlon Cymru yn allanol yn ddiweddar i ddod yn Atal Siarcod Benthycy Arian Cymru yn ogystal â mewnwelediad i ymchwil a gomisiynwyd ar effaith yr argyfwng costau byw ar arferion benthycy cyhoeddus, gan gynnwys i dalu am hanfodion fel bwyd a nwyddau ymolchi.

O ystyried paragraffau olaf ond un yr adroddiad yn ymwneud â gweithgarwch gorfodi Safonau Masnach, amlygodd yr adroddiad gyfraddau euogfarn ar gyfer achosion safonau masnach ledled Cymru, gyda'r Cadeirydd yn gofyn a oedd y dirwyon a roddwyd wedi arwain at adennill eu costau. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth na chafodd y gwasanaethau unrhyw arian o'r dirwyon - aeth yr arian i mewn i'r system lysoedd, er ar rai achlysuron byddai costau'n cael eu had-dalu i gynghorau, ni fyddai hyn yn digwydd yn aml ac iawndal i'r dioddefwyr a welwyd yn llwyddiant i'r gwasanaeth.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn fanwl fe wnaed hynny wedyn

PENDERFYNWYD – NODI a chytuno ar gynnwys yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(f) Ch3 2022/23 Adroddiad Monitro Refeniw Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir (CAT) –

Roedd y Pwyllgor wedi cytuno ar Gyllideb £8.331m y GRhR ar gyfer 2022/23 ar 14 Rhagfyr, 2021, a oedd wedi cynnwys dyfarniad cyflog tybiedig o 2%.

Roedd cynnig cyflog Cyflogwyr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol ym mis Gorffennaf 2022 wedi'i dderbyn ddiwedd 2022, gan arwain at ddiffyg cyllidebol o £268k - er bod hyn hefyd wedi'i wrthbwyso gan swyddi gwag yn y gwasanaeth yn ystod 2022/23.

Roedd gorwariant wedi'i ragweld y GRhR yn Ch3 hefyd yn £268k ac yn cynnwys diffyg cyllidebol hanesyddol o £200k yn ymwneud â Thrwyddedu Tacsis. Y sefyllfa alldro a ragwelwyd a gyflwynwyd yn yr adroddiad fel y dangosir isod:

	Cyllideb	Amrywiad	Alldro
	Gros	Alldro	a
Awdurdod	£'000	£'000	Ragwelwyd
			£'000
Pen-y-bont ar Ogwr	1,777	1,753	24
Caerdydd	4,811	5,083	(272)

Y Fro	1,743	1,763	(20)
Cyfanswm Gwariant Gros	8,331	8,599	(268)

Manteisiodd y Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg ar y cyfle i roi gwybod i'r Pwyllgor fod amrwyd andwyol Cyngor Caerdydd wedi'i gytuno ers i'r adroddiad gael ei ddrafftio.

Pwyllgor, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a gynhwysir ynddo, wedi hynny

PENDERFYNWYD – NODI'r sefyllfa mewn perthynas â sefyllfa alldro rhagolwg 2022/23.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(g) Penodi Swyddogion Priodol (CAT) –

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno, ar gyfer penodi / awdurdodi, bersonau cymwys addas yn rhinwedd eu cymhwyster, eu hyfforddiant a'u cydsyniad, i weithredu fel Swyddogion Priodol / Swyddogion Meddygol Porthladdoedd ar ran yr Awdurdod Lleol dan ddarpariaeth Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, a rheoliadau a wnaed dan hynny.

Mabwysiadodd deddfwriaeth Diogelu Iechyd wedi'i diweddarau ddull "pob perygl" sy'n cwmpasu haint a halogiad o unrhyw fath. Roedd hyn yn gyson â Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol 2005 a oedd â'r nod o hwyluso ymatebion rhyngwladol i risgiau iechyd cyhoeddus aciwt a allai groesi ffiniau.

Diffinnir 'Swyddog Priodol' yn Adran 74 o Ddeddf 1984 (fel y'i diwygiwyd). Nodwyd mai rôl Swyddog Priodol oedd cefnogi'r Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswyddau.

Yn dilyn ymholiad ynghylch a oedd y Swyddogion Priodol wedi dod ar draws llawer o gam-drin wrth gyflawni eu rolau, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y gwasanaeth yn gweithio gyda phartneriaid fel dull amlasiantaethol i ddiogelu'r gymuned, ac er bod mesurau diogelwch ar waith, roedd y Swyddogion hefyd wedi'u hyfforddi'n dda i ddelio â materion o'r fath.

PENDERFYNWYD – PENODI'r personau a ganlyn yn Swyddogion Priodol a Swyddogion Meddygol Porthladdoedd ar ran yr Awdurdod Lleol o dan ddarpariaethau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, a Rheoliadau yn cael eu gwneud. dan hynny:

- Siobhan Adams

- Graham Brown
- Caryn Cox
- Richard Firth
- Ardiana Gjini
- Beverly Griggs
- Sion Lingard
- Susan Mably
- Elizabeth Marchant
- Keith Neal
- Giri Shankar
- Rhianwen Stiff
- Christopher Johnson
- Emily Steggall
- Daniel Thomas
- Christopher Williams.

Rheswm dros y penderfyniad

Roedd y rhestr gyfredol o Swyddogion Priodol / Swyddogion Meddygol Porthladd wedi dyddio ac roedd angen ei diwygio.